
# Book Talk



You've enjoyed It's Time to Rhyme! Now it's Book Talk time!




Here is a special book for you to enjoy with your child.

This book has been chosen because it's fun and because it will give you and your child lots of things to talk about.

You will also receive some other fun resources to enjoy with this book.

**This week, just enjoy reading and talking about the book together. Have fun!**


## Reading and Talking

Sharing books is a great way to spend special time with your child. **Reading with your child regularly can make a real difference as they start school.**

Cuddling up and reading quietly together is great. But reading doesn't always have to be quiet!

**Talking about the books you read can really help your child with their speaking and listening skills.** It will also help their reading and writing skills when they start school.

- Listening to stories helps your child concentrate and **become a good listener.**
- Reading the same books many times will help your child **learn new words.**
- Asking questions and talking about the pictures and stories will help your child **become a more confident speaker.** It will also help your child practise using the words in the book.



Pori Drwy Stori

## Enjoying This Book Together

Here are some ideas to help you enjoy books together:


1. **Read anytime, anywhere.** Take this book with you when you go out. Read while you wait for a bus or at the doctor's.
2. **End the day with a bedtime book.** Help your child relax and get ready for sleep.
3. If your child enjoys this book, **read it again and again.** Favourite books can be really comforting and you often find more to talk about the more you read them.
4. **All join in!** Reading is a great family activity.
5. And remember: don't worry about getting it 'right' – **just enjoy reading and talking about the book together!**

© Illustration by Maggie Li, from Cloddio, Cloddio, Deinosor / Dig, Dig, Dinosaur, published in 2026 by Rily Publications.

BookTrust Cymru
Ysgogi plant i ddarllen
Getting children reading
adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Sôn am Lyfr

Rydych chi wedi mwynhau Mae'n Amser Rhigwm! Nawr mae'n amser Sôn Am Lyfr!




Dyma lyfr arbennig i chi ei fwynhau gyda'ch plentyn.

Mae'r llyfr yma wedi ei ddewis am ei fod yn hwyliog ac mae'n cynnig llawer o bethau i chi a'ch plentyn eu trafod.

Byddwch chi hefyd yn derbyn adnoddau hwyliog eraill i'w mwynhau gyda'r llyfr hwn.

**Yr wythnos hon, mwynhewch ddarllen a siarad am y llyfr gyda'ch gilydd, a dim byd arall. Mwynhewch!**


## Darllen a Siarad

Mae rhannu llyfrau'n ffordd ardderchog o dreulio amser arbennig gyda'ch plentyn. **Gall darllen gyda'ch plentyn yn aml wneud gwahaniaeth enfawr wrth iddyn nhw ddechrau mynd i'r ysgol.**

Mae cwtsho a darllen yn dawel gyda'ch gilydd yn hyfryd. Ond does dim rhaid i ddarllen fod yn dawel bob amser!

**Gall siarad am y llyfrau fyddwch chi'n eu darllen fod yn help mawr i'ch plentyn i feithrin sgiliau siarad a gwrando.** Bydd hefyd yn helpu'i sgiliau darllen ac ysgrifennu pan fydd yn mynd i'r ysgol.

- Mae gwrando ar storïau'n helpu eich plentyn i ganolbwyntio a **dod yn wrandäwr da.**
- Bydd darllen yr un llyfr drosodd a throsodd yn helpu eich plentyn i **ddysgu geiriau newydd.**
- Bydd holi cwestiynau a siarad am y lluniau a'r storïau yn helpu eich plentyn i fod **yn siaradwr mwy hyderus.** Bydd hefyd yn helpu eich plentyn i ymarfer defnyddio'r geiriau yn y llyfr.



Pori Drwy Stori

## Mwynhau'r Llyfr Gyda'ch Gilydd

Dyma ambell syniad i'ch helpu i fwynhau rhannu'r llyfr gyda'ch gilydd:

1. **Darllenwch unrhyw bryd, yn unrhyw le.** Ewch â'r llyfr hwn gyda chi pan ewch chi allan. Darllenwch wrth aros am fws, neu yn y feddygfa.
2. **Dewch â'r diwrnod i ben â llyfr cyn cysgu.** Helpwch eich plentyn i ymlacio a pharatoi i fynd i gysgu.
3. Os yw eich plentyn yn mwynhau'r llyfr, **darllenwch ef drosodd a throsodd.** Gall hoff lyfrau fod yn gysur mawr, ac fe fyddwch chi'n gweld bod mwy i'w drafod po fwyaf fyddwch chi'n eu darllen.
4. **Pawb i ymuno!** Mae darllen yn weithgaredd gwych i'r teulu cyfan.
5. A chofiwch: peidiwch â gofidio am wneud popeth yn 'gywir' – **mwynhewch ddarllen a siarad am y llyfr gyda'ch gilydd, a dyna'i gyd!**

© Darluniau gan Maggie Li, o Cloddio, Cloddio, Deinosor / Dig, Dig, Dinosaur, cyhoeddwyd yn 2026 gan Rily Publications.

BookTrust Cymru
Ysgogi plant i ddarllen
Getting children reading

adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government